ATODLEN 2 erthygl 5

Gweithwyr Cymorth Ieuenctid

# RHAN 1

## Cymwysterau

### Dehongli

**1.** Yn yr Atodlen hon—

ystyr "CCEA" ("*CCEA*") yw Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu Gogledd Iwerddon y parheir â'i fodolaeth drwy erthygl 73 o Orchymyn 1998;

ystyr "Cymwysterau Cymru" ("*Qualifications Wales*") yw'r corff a sefydlwyd o dan adran 2(1) o Ddeddf 2015;

ystyr "Deddf (Yr Alban) 1996" ("*the 1996 (Scotland) Act*") yw Deddf Addysg (Yr Alban) 1996(**1**);

ystyr "Deddf 2009" ("*the 2009 Act*") yw Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**2**);

ystyr "Deddf 2015" ("*the 2015 Act*") yw Deddf Cymwysterau Cymru 2015(**3**);

ystyr "Gorchymyn 1998" ("*the 1998 Order*") yw Gorchymyn Addysg (Gogledd Iwerddon) 1998(**4**);

ystyr "Ofqual" ("*Ofqual*") yw'r Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau a sefydlwyd o dan adran 127 o Ddeddf 2009;

ystyr "SQA" ("*SQA*") yw Awdurdod Cymwysterau'r Alban a sefydlwyd o dan adran 1 Deddf (Yr Alban) 1996.

### Cymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid

**2.** Mae paragraffau 2 i 5 yn nodi'r cymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid.

### Cymru

**3.**—(1) Mae cymhwyster a nodir yn is-baragraff (2) yn gymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid at ddibenion y categori gweithiwr cymorth ieuenctid yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 os cafodd ei ddyfarnu gan gorff a gydnabyddir gan Gymwysterau Cymru o dan Ran 3 o Ddeddf 2015 mewn cysylltiad â dyfarnu'r cymhwyster hwnnw.

(2) Y cymwysterau yw—

(a) dyfarniad Lefel 2 mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(b) tystysgrif Lefel 2 mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(c) tystysgrif Lefel 3 mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(d) diploma Lefel 3 mewn ymarfer gwaith ieuenctid.

---

(**1**) 1996 p. 43.
(**2**) 2009 p. 22.
(**3**) 2015 dccc 5.
(**4**) O.S. 1998/1759 (G.I. 13) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/1915 (N.I. 11).

**Lloegr**

**4.**—(1) Mae cymhwyster a nodir yn is-baragraff (2) yn gymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid at ddibenion y categori gweithiwr cymorth ieuenctid yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 os cafodd ei ddyfarnu gan gorff a gydnabyddir gan Ofqual o dan adran 132 o Ddeddf 2009 mewn cysylltiad â dyfarnu'r cymhwyster hwnnw.

(2) Y cymwysterau yw—

(a) tystysgrif Lefel 2 mewn gweithio gyda phobl ifanc;

(b) dyfarniad Lefel 2 mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(c) tystysgrif Lefel 2 mewn gweithio gyda phobl ifanc;

(d) tystysgrif Lefel 2 mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(e) dyfarniad Lefel 3 mewn gweithio gyda phobl ifanc hyglwyf;

(f) dyfarniad Lefel 3 mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(g) tystysgrif Lefel 3 mewn gweithio gyda phobl ifanc hyglwyf;

(h) diploma Lefel 3 mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(i) dyfarniad Lefel 4 mewn gweithio gyda phobl ifanc hyglwyf.

**Yr Alban**

**5.**—(1) Mae cymhwyster a nodir yn is-baragraff (2) yn gymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid at ddibenion y categori gweithiwr cymorth ieuenctid yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 os cafodd ei ddyfarnu gan yr SQA, neu unrhyw gorff a gymeradwyir gan yr SQA o dan adran 2(1) o Ddeddf (yr Alban) 1996 mewn cysylltiad â dyfarnu'r cymhwyster hwnnw.

(2) Y cymwysterau yw—

(a) SVQ 2 mewn gwaith ieuenctid;

(b) SVQ 3 mewn gwaith ieuenctid;

(c) SVQ 3 mewn cyfiawnder ieuenctid.

**Gogledd Iwerddon**

**6.**—(1) Mae cymhwyster a nodir yn is-baragraff (2) yn gymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid at ddibenion y categori gweithiwr cymorth ieuenctid yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014 os cafodd ei ddyfarnu gan y CCEA, neu unrhyw gorff a gydnabyddir gan y CCEA o dan Ran 8 o Orchymyn 1998 mewn cysylltiad â dyfarnu'r cymhwyster hwnnw.

(2) Y cymwysterau yw—

(a) dyfarniad Lefel 2 mewn cysylltiadau cymunedol, cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(b) dyfarniad Lefel 2 mewn deall rôl y cyngor ieuenctid;

(c) tystysgrif Lefel 2 mewn cysylltiadau cymunedol, cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(d) tystysgrif Lefel 2 mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(e) diploma Lefel 2 mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(f) dyfarniad Lefel 3 mewn ymarfer gwaith ieuenctid;

(g) tystysgrif Lefel 3 mewn gwaith ieuenctid allgymorth a datgysylltiedig;

(h) tystysgrif Lefel 3 mewn gweithwyr cefnogi cymheiriaid - theori ac ymarfer.

# RHAN 2

## Gofynion Eraill

**7.** Mae person yn bodloni'r gofynion eraill at ddibenion y categori gweithiwr cymorth ieuenctid yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014—

(a) os oedd y person hwnnw yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig, cyn 31 Rhagfyr 1988, o fewn ystyr Rhan 3 o Reoliadau Addysg (Athrawon) 1982 (gweler rheoliad 13), neu

(b) os yw'r person hwnnw wedi ei awdurdodi i ymarfer fel gweithiwr cymorth ieuenctid yn rhinwedd Rhan 3 o Reoliadau 2015 (rhyddid ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig).